Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Little Stars Abercarn**

**Uned 7**
**Darren Drive**
**Abercarn**
**Casnewydd**
**NP11 5AR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Little Stars Abercarn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Kelly Podmore |
| Lleoedd cofrestredig | 62 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw]<br>11 Ionawr 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw]<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol. Ar yr achlysur hwn, nid ydym wedi ystyried gofal a datblygiad, a'r amgylchedd yn fanwl. Caiff y themâu hyn yn eu hystyried yn llawn yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau ynghylch sut maent yn dymuno chwarae. Mae babanod yn meithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas ac yn mwynhau archwilio eu hamgylchedd. Mae plant hŷn yn datblygu eu hannibyniaeth a'u sgiliau cymdeithasol drwy eu profiadau yn y feithrinfa.

Mae'r ymarferwyr wedi'u cymhwyso'n briodol ac maent wedi diweddaru eu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a'u hyfforddiant ymwybyddiaeth o alergenau. Nid yw rhai arferion cadw cofnodion yn gywir ac mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r Person â Chyfrifoldeb yn ymdrin â hyn. Mae'r ymarferwyr yn meithrin cydberthnasau da â phlant ac yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Mae digon o ymarferwyr ar gael i gynnal cymarebau a goruchwylio plant yn ddigonol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrina Berson â Chyfrifoldeb er mwyn goruchwylio'r gwaith o reoli'r feithrinfa o ddydd i ddydd. Mae'n monitro lefelau staffio ac mae cofnodion yn dangos bod y feithrinfa yn gweithredu â'r cymarebau cywir o staff i ofalu am y plant. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y feithrina wedi cofnodi'n effeithiol sut maent yn monitro rhai agweddau ar y lleoliad: mae hyn yn cynnwys damweiniau a digwyddiadau, nodi a monitro anghenion iechyd unigol y plant a chadw cofnodion gofal a phryderon trylwyr. Cawsom sicrwydd gan yr Unigolyn Cyfrifol y gwneir gwelliannau yn y meysydd hyn ac y tynnir sylw'r holl ymarferwyr at y hyn fel mater o flaenoriaeth.

## Llesiant

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hyderus i siarad a mynegi eu hunain. Maent yn dewis y teganau y maent yn dymuno chwarae â nhw neu'n mynd at yr ymarferwyr gyda'u ceisiadau. Mae'r babanod yn chwilfrydig ac yn archwilio eu hamgylchedd yn hyderus. Mae'r plant hŷn yn cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp yn ystod amser stori, gan ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu.

Mae gan bron bob un o'r plant gydberthnasau da gyda'r ymarferwyr ac yn mynd atynt am gefnogaeth. Maent yn barod i wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr ac yn awyddus i ddechrau chwarae. Mae'r babanod yn chwilio am faldod a sicrwydd gan wybod y bydd yr ymarferwyr yn ymateb yn briodol. Mae babanod sy'n newydd i'r lleoliad yn chwarae â theganau maent yn eu darganfod ac sydd o ddiddordeb iddynt.  Pan fyddant yn cynhyrfu, mae'r ymatebwyr yn ymateb iddynt yn brydlon. O ganlyniad, mae'r plant yn setlo'n gyflym.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu cyfeillgarwch a'u sgiliau cymdeithasol yn y feithrinfa. Gwelsom fabanod yn dangos hoffter at ei gilydd yn ddigymell gan gofleidio a chusanu wrth iddynt wrando ar stori. Mae bron pob un o'r plant yn barod i ddilyn cyfarwyddiadau gan yr ymarferwyr. Er enghraifft, gwrandawodd plentyn ifanc pan gafodd ei atgoffa i beidio â sefyll ar gadair ac y dylid eistedd arni'n daclus. Yna eisteddodd ar y gadair a chwarae'n hapus â ffrâm edafu gleiniau. Gwelsom waith plant yn cael ei ddathlu drwy ei arddangos ar lein ddillad sy'n annog ymdeimlad o berthyn i'r plant.

Mae'r holl blant yn cael cyfleoedd da ar gyfer mathau gwahanol o chwarae wrth iddynt symud o gwmpas y prif ystafelloedd. Maent yn dechrau llawer o'u chwarae eu hunain ac yn archwilio eu hamgylchedd. Mae gan y babanod ardaloedd gwahanol i'w darganfod ac maent yn mwynhau adeiladu tyrau â blociau, chwarae meddal, eistedd yn y wigwam, a chwarae offerynnau cerdd. Mae'r plant hŷn yn mwynhau gwrando ar straeon ac mae amrywiaeth dda o adnoddau priodol ar gael iddynt sy'n cefnogi eu dychymyg, megis pwll tywod mawr dan do, ardal glyd a ffigyrau byd bach.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu sgiliau annibynnol yn dda, yn unol â'u cam datblygu. Mae plant hŷn yn defnyddio'r toiledau ac yn golchi eu dwylo yn annibynnol. Anogir y babanod i fwydo eu hunain pan gaiff bwydydd bys a bawd eu cyflwyno i'w deiet ac mae'r ymarferwyr yn eu hannog i olchi eu dwylo eu hunain cyn cael byrbryd.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r ymarferwyr wedi'u cymhwyso'n briodol ac maent wedi diweddaru eu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a'u hyfforddiant ymwybyddiaeth o alergenau. Mae gan y rhan fwyaf o'r staff gymhwyster diogelu cyfredol, ond mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau y caiff hyn ei adolygu i bob ymarferydd. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn rhoi gweithdrefnau'r feithrinfa ar waith i'w cadw'n ddiogel. Maent yn rhoi bwyd iach i'r plant ac yn deall sut mae rhoi gweithdrefnau alergedd diogel ar waith a sut i ymateb i ddamweiniau neu ddigwyddiadau. Fodd bynnag, nid yw rhywfaint o wybodaeth a gaiff ei rhannu rhwng rhieni ac ymarferwyr wedi'i hadlewyrchu'n gywir mewn rhai cofnodion. Mae'r gweithwyr allweddol ac ymarferwyr eraill yn gyfarwydd iawn ag anghenion iechyd y plant ond, er enghraifft, nid oedd gwybodaeth ddiwygiedig am statws alergenau'r plant a'r cynnydd ar yr ysgol alergenau wedi cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Mae'r ymarferwyr yn trin y plant â charedigrwydd a pharch. Roedd y babanod yn chwilio am faldod a sicrwydd gan yr ymarferwyr, a bodlonwyd eu ceisiadau yn gyflym. Clywsom yr ymarferwyr yn cyfathrebu'n dda â'u cydweithwyr ynghylch anghenion y plant a goruchwylio'r plant yn gyffredinol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio yn ystod amseroedd bwyd a bod y plant yn cael eu hannog a'u canmol er mwyn datblygu moesau da gan fod yr ymarferwyr yn dweud os gwelwch yn dda a diolch pan fyddant yn helpu'r plant. Maent yn annog rhyngweithiadau cymdeithasol cadarnhaol ymhlith y plant, er enghraifft, aeth ymarferydd ati i annog plentyn drwy ddweud “Can you give X a ball as well? Good girl!” ac yna chwaraeodd y plant yn fodlon.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon, ond caiff ei hystyried yn llawn yn yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y feithrina er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n briodol. Nid yw rhai polisïau yn adlewyrchu arferion cyfredol, oherwydd bod ganddynt weithdrefnau diwygiedig i reoli alergeddau gan ddefnyddio prociau gweledol ar gyfer staff y feithrinfa.  Diwygiodd y bobl sy'n rhedeg y feithrina y polisi meddyginiaeth yn ystod yr arolygiad er mwyn egluro'r broses o roi paracetamol i'r plant. Cedwir cofnodion dyddiol o'r amseroedd pan fydd y staff a'r plant yn y feithrina. Mae'r cofnodion hyn yn dangos bod cymarebau yn cael eu cynnal gan fod digon o ymarferwyr i ofalu am y plant sy'n bresennol. Dywed yr ymarferwyr fod morâl yn dda yn y lleoliad a gwnaethant ddweud wrthym fod y rheolwyr yn gefnogol ac y gallant gael gafael arnynt yn hawdd pan fydd angen. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn cwblhau cofrestrau ar gyfer y plant a nhw eu hunain yn rheolaidd, a bod y rheolwyr yn cynllunio ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod digon o staff ac y caiff y cymarebau eu cynnal.

Ni phrofwyd y maes i'w wella o ran hunanasesu'r gwasanaeth yn yr arolygiad hwn am nad yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi gofyn am y wybodaeth hon ar gyfer y cyfnod asesu nesaf eto. Caiff hyn ei brofi yn yr arolygiad nesaf felly. Ar hyn o bryd mae strategaethau ar waith i adolygu a gwella'r gwasanaeth mewn ymgynghoriad â'r rhieni, yr ymarferwyr, a'r plant eu hunain. Gwelsom fod cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cwblhau gan yr ymarferwyr a'u monitro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, nid yw'r rheolwyr yn cofnodi'n ffurfiol sut maent yn ymateb i'r wybodaeth hon.

Mae'r rhieni a'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw rhai prosesau cadw cofnodion a rhannu gwybodaeth wedi'u cwblhau'r gywir, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi nodi ei bod wedi cynnal trafodaethau â'r ymarferwyr er mwyn gwella hyn.

Mae'r argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol ar waith o hyd a chânt eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A.1. Adolygu'r polisïau ar alergenau a meddyginiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gweithdrefnau cyfredol.

A.2. Cofnodi'n ffurfiol sut y caiff damweiniau a digwyddiadau eu monitro bob mis.

A.3. Sicrhau y caiff yr holl gofnodion eu cwblhau'n brydlon a chofnodi sylwadau rhieni'n gywir mewn dogfennaeth er mwyn dangos cyfathrebu tryloyw, cywirdeb y wybodaeth a nodau y cytunwyd arnynt.

A.4. Staff i ddiweddaru eu hyfforddiant diogelu.

A.5. Staff i nodi camau nesaf unigol y plant a defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio gweithgareddau er mwyn hybu eu datblygiad.

A.6. Sicrhau bod y staff yn cynnwys sesiynau rheolaidd ar yr amserlen i'r plant iau chwarae yn yr awyr agored.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 17 | Nid yw'r Person Cofrestredig wedi lanlwytho ei Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) ar gyfer 2021 o fewn yr amserlen a nodwyd. | Adolygwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/01/2023